

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu Remote Meeting Dydd Iau, 25ain Chwefror, 2021 at 10.00 am

CYNGHORWYR YN BRESENNOL

Cynghorydd Sirol P.Pavia (Cadeirydd)
Cynghorydd Sirol: A.Davies, D. Evans, R.Roden,
B. Strong, R.J.W. Greenland, P. Murphy

SWYDDOGION YN BRESENNOL

Frances O'Brien, Prif Swyddog, Menter
Cath Fallon, Pennaeth Economi a Menter
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog

YMDDIHEURIADAU: Cynghorydd Sirol: D. Blakebrough, M.Feakins

1. Croeso gan y Cadeirydd

Dywedodd y cadeirydd wrth y pwyllgor y byddem, yn y cyfarfod heddiw, yn trafod sut i wella ein swyddogaeth gaffael strategol gyda Steve Robinson, Rheolwr Gyfarwyddwr Atebion Solutions, yn dilyn adolygiad helaeth. Esboniodd fod hyn wedi bod yn flaenoriaeth sylweddol i'r pwyllgor craffu dros y 18 mis diwethaf. Croesawodd aelodau'r pwyllgor, aelodau gweithredol a gwesteion y cyfarfod yn esbonio y byddem yn dechrau gyda chyflwyniadau cyn cynnal eiliad o dawelwch i fyfyrion ar farwolaeth drist aelod ymroddedig ac ymroddedig hirsefydlog o'r pwyllgor dethol hwn, y Cynghorydd David Dovey. Roedd y cadeirydd yn annerch y pwyllgor drwy ddweud;

"Rwyf wedi bod yn ffodus iawn o fod wedi gweithio â David dros flynyddoedd lawer ac wedi dod i'w adnabod mor dda. Ef oedd fy nghymydog drws nesaf o ran wardiau ac fel cadeirydd y pwyllgor hwn, mae'n anrhydedd i mi fy mod wedi nabod David ac wedi cael cyngor gan David ac aelodau eraill o'r pwyllgor, roedd gan David brofiad blaenorol mewn busnes y tu allan i'r sector cyhoeddus. Mae hynny wedi bod yn amhrisiadwy i mi o ran gwella fy ngwybodaeth fy hun, ond hefyd yn ein gwaith fel pwyllgor. Rwy'n dorcalonnus i fod yn onest ac rwy'n mynd i golli David fel ffrind a mentor. Hoffwn i ni gymryd eiliad o dawelwch i fyfyrion ar farwolaeth David".

"Diolch i chi, gynghorwyr a swyddogion. Rwy'n gwybod bod llawer ohonoch wedi gweithio'n agos iawn gyda David ac yn teimlo'r golled hon hefyd, ac rydym yn danfon ein meddyliau at Stephanie and Spencer a holl deulu David ar yr adeg anodd iawn hon".

2. Datganiadau o Fuddiant

Cytunodd y pwyllgor i gofnodi unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ôl yr angen wrth drafod yr adroddiadau.

3. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn mynegi diddordeb i annerch y pwyllgor.

4. Caffael: Adroddiad cynnydd ar yr Adolygiad o'r Polisi Caffael

Cyflwynodd Cath Fallon, Pennaeth Menter ac Ysgogi Cymunedol Cyngor Sir Fynwy a Steve Robinson, Pennaeth Caffael Cyngor Caerdydd a Rheolwr Gyfarwyddwr Atebion eu hunain i'r pwyllgor. Esboniwyd mai'r cynnig a gyflwynwyd i'r pwyllgor i'w drafod oedd i Gynghorau Sir Fynwy a Chaerdydd gydweithio ar gaffael strategol, fel rhan o gynigion cyllideb Sir Fynwy ar gyfer 2021/22. Clywodd yr Aelodau fod yr adolygiad wedi'i gynnal gan Atebion, sef cangen fasnachu gwasanaethau caffael Cyngor Caerdydd. Amlygodd yr adolygiad y capasiti cyfyngedig yn Sir Fynwy, gyda thîm bach yn cynnwys swyddog caffael a rheolwr caffael. Awgrymodd mai prin oedd y capasiti i'r swyddogion hyn ddylanwadu ar ymddygiadau sy'n ymwneud â'r gwariant blynyddol £100 miliwn o ran 3ydd partïon neu ddylanwadu ar sut mae'r gwariant hwnnw'n cyflawni blaenoriaethau'r cyngor o ran arloesi, ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, yn ogystal ag ystyriaethau diwylliannol, llesiant, gwerth am arian ac effeithlonrwydd, llywodraethu a rheoli risg.

Argymhellodd yr adolygiad i ddechrau y dylid cynyddu capasiti drwy gyflogi 3 arbenigwr categori a dadansoddwr systemau busnes, ond teimlwyd nad oedd yr adolygiad yn ymestyn yn ddigon pell i'n helpu i ymgymryd â'r trawsnewid busnes a fyddai'n ein helpu i wario'n ddoethach, gwella ein llywodraethu caffael ac felly lleihau ein risg. Rydym am fod ar flaen y gad wrth ymateb i newidiadau cenedlaethol megis cyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd i gynghorau a hefyd ystyried ffyrdd newydd o fesur gwerth cymdeithasol ein contractau a sut y gallwn gynyddu'r manteision i'r gymuned drwy gyfleoedd cyflogaeth a phrentisiaethau lleol, gan ychwanegu gwerth at fusnesau lleol a chadwyni cyflenwi.

Rydym wedi cynyddu ein huchelgeisiau fel cyngor ar yr agenda cyfiawnder cymdeithasol, drwy edrych ar sut yr ydym yn mynd i'r afael â'r prif faterion megis tlodi a digartrefedd ac o flaen y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd, drwy feddwl am sut y gallwn hyrwyddo ffyniant teg a lleihau anghydraddoldebau a thrwy archwilio ein penderfyniadau strategol i sicrhau ein bod yn ystyried yr anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mewn cyd-destun caffael strategol, teimlwn fod gwir angen canolbwyntio llawer cryfach ar gyfoeth lleol gan greu cyfleoedd, yn enwedig o safbwynt menter a datblygu lleol. Hoffem alluogi mwy o gyfleoedd i gwmnïau lleol wneud cais am contractau drwy 'gwrdd â digwyddiadau'r prynwr' a rhannu'r contractau er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch a cheisio diogelu ein cyflogaeth lleol a chreu mwy o gyfleoedd gwaith i drigolion lleol.

Mae angen i ni hefyd roi ffocws i'r economi gylchol o ran datgarboneiddio ac ystyried ailddefnyddio ac ailgylchu a hefyd ein heconomi sylfaenol o ran galluogi a gwella ein cadwyni cyflenwi lleol, ein sector lletygarwch lleol, ein sector gofal lleol a'n sector manwerthu lleol drwy gryfhau ein cefnogaeth iddynt.

Y cynnig yr ydym yn ei gyflwyno i'r aelodau heddiw yw ein bod, wrth ystyried canfyddiadau'r adolygiad, yn cytuno i ymrwymo i gydweithio sy'n fuddiol i'r ddwy ochr

gyda Chyngor Caerdydd, am gyfnod o 3 blynedd i ddechrau, ond pe bai hyn yn llwyddiannus, gan symud at contract treigl. Byddai'r cynghorau'n cydweithio i gyflawni a darparu gwasanaethau caffael a byddai hyn yn golygu dirprwyo ein swyddogaethau caffael i Gyngor Caerdydd ar ran y ddau gyngor am y cyfnod o 3 blynedd. Byddai hyblygrwydd o hyd o fewn y contract i ymgymryd â chaffael ein hunain.

Y manteision i ni yw y byddem yn elwa o dîm mwy ac o'r gallu a'r arbenigedd technegol y gall Cyngor Caerdydd eu cynnig gyda'u gwaith rhagorol, ar ôl trawsnewid caffael yng Nghaerdydd ac wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu cydweithredu mewn caffael strategol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Mae eu profiad o ddatblygu strategaeth wedi bod o fudd i Gymru ac eto mae gennym rywbeth i'w gynnig hefyd o ran rhannu ein harfer da ehangach a symud ymlaen, gallwn geisio canolbwyntio ar 'gost oes gyfan' a chynnal dadansoddiad trylwyr o wariant. Mae hwn yn gynnig sy'n cwmpasu costau yn hytrach na chynhyrchu incwm a ddylai fod o fudd i'r ddau gyngor. O ran ein harweinyddiaeth ddiweddar o'r rhaglen INFUSE, a fydd yn ystyried Arloesi sgiliau'r Sector Cyhoeddus, y bydd caffael yn rhan ohono, byddwn yn cysylltu â Rhwydwaith Caffael De-ddwyrain Cymru, felly mae hwn yn gyfle amserol.

O ran ein sefyllfa bresennol, rydym wedi cynnal arfarniad opsiynau llawn. Os na wnawn unrhyw beth, byddem yn aros yn y sefyllfa bresennol lle nad oes gennym ddigon o adnoddau ac nad ydym yn elwa o'r cyfleoedd ehangach. Os byddwn yn cadw'r gwasanaeth yn fewnol ac yn buddsoddi mewn mwy o staff, ni sy'n talu'r costau yn unig ac ni fyddem yn y sefyllfa i elwa o arbenigedd tîm sydd wedi ennill gwobrau, i elwa o fwy o gapasiti, i wella ein rheolaeth contractau a lleihau ein gwariant oddi ar gontractau. Ni fyddai'r opsiwn caffael agored yn ein galluogi i wireddu'r manteision a grybwyllwyd eisoes o ran gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd, yn sicr nid yn yr un modd â'r cynnig i dalu costau i weithio gyda Chyngor Caerdydd.

Cyfanswm y gost yw £319 mil y flwyddyn dros y cyfnod o 3 blynedd, sydd ond yn cyfateb i 0.3% o wariant 3ydd parti. Fel yr esboniwyd yn yr adroddiad, gellir talu hyn yn rhannol drwy ein cyllideb bresennol ond mae'n gosod pwysau ychwanegol o £207 mil. Rydym yn gofyn am eich cefnogaeth i'n galluogi i symud ymlaen i geisio cytundeb gan y cabinet ac yn y cyfamser, byddwn yn ceisio llunio cynllun cyflawni i ddod ag ef yn ôl at waith craffu i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion ac yn cael ein dwyn i gyfrif am y rheini.

Cyflwynodd Steve Robinson o Gyngor Caerdydd ei hun, yn amlinellu ei brofiad helaeth ym maes Caffael, ar ôl gweithio i gyn Gyngor De Morgannwg a Chyngor Caerdydd bellach ers 1998, gan arwain ei wasanaeth caffael am 12 mlynedd. Fel cyfrifydd proffesiynol, dywedodd ei fod yn bennaeth rhwydwaith caffael Cymru a'i fod yn arwain cwmni masnachu Caerdydd o'r enw Atebion. Esboniodd Steve ei fod wedi arwain yr adolygiad hwn, ond ei fod yn gallu dod â'r profiadau niferus o weithio gydag awdurdodau lleol yn Lloegr i'r amlwg a bod hyn yn bwysig gan ei fod yn cynnig y cyfle i rannu arfer gorau drwy gydweithio.

Tynnodd Steve sylw at y ffaith bod rhywfaint o'r gwaith y mae Sir Fynwy wedi'i wneud o gwmpas gofal cymdeithasol yn wych a bod dysgu i'w gael o Sir Fynwy hefyd. Esboniodd fod Caerdydd wedi gwneud llawer o waith yn ymwneud â'r agenda economaidd gymdeithasol ehangach a'r 'cyflog byw' a hefyd ar werth cymdeithasol. Dywedodd Steve y bydd y wybodaeth a'r profiad y gall Caerdydd eu cynnig yn

ddefnyddiol, ond mae'n amlwg bod angen sicrhau bod cyd-destun a dyheadau Sir Fynwy yn cyd-fynd â hynny. Esboniodd y bydd yn hanfodol gosod strategaeth a chyfeiriad clir i lywio'r hyn a wneir, oherwydd ni all ymwneud â chreu swyddi newydd yn unig. Yng Nghaerdydd, dros y 6 neu 7 mlynedd diwethaf, mae rhaglen lleoli myfyrwyr lle mae myfyrwyr yn treulio blwyddyn gyda tîm caffael yr awdurdod, yn meithrin sgiliau ac arbenigedd yn y tîm a bod y buddsoddiad hirdymor hwn yn cyflawni gwobrau hirdymor.

Esboniodd Steve mai'r cynnig yw recriwtio 3 swydd ychwanegol i dîm Caerdydd i gefnogi'r gwaith ar draws y ddau gyngor, gan y teimlwyd ei bod yn annheg i'r ddau gyngor pe bai'r gwaith ychwanegol yn cael ei gyflawni gan ddefnyddio'r capasiti presennol. Byddai recriwtio'r swyddi i'r tîm ehangach yn hytrach na neilltuo swyddi yn rhoi mwy o wydnwch i'r ddau gyngor a byddai'n galluogi rhannu'r arbenigedd. Rydym bob amser wedi teimlo bod angen arbenigedd o ansawdd da a thrafodaeth allweddol o fewn grŵp cenedlaethol CLILC yw sut y gallwn feithrin gwybodaeth a chapasiti o fewn Llywodraeth Leol, fel nad oes angen i ni fynd at ymgynghorwyr allanol. Gobeithio bod hyn wedi darparu gwybodaeth gefndir ddefnyddiol.

Herio gan Aelodau:

- Mae pob un o'r pwyllgorau wedi cydnabod y manteision sylweddol sydd i'w hennill drwy wella ein swyddogaeth gaffael. Mae gan rai ohonom brofiad busnes ond rwy'n credu ein bod i gyd yn sylweddoli bod manteision sylweddol i'w hennill yma. Rydym yn sylweddoli nad oes digon o adnoddau i gyflawni'r hyn yr hoffai ein tîm ei wneud ac rydym yn cydnabod bod ein data system yn anodd ei lywio ~ ni allem ei holi i nodi patrymau gwariant. Dyma'r 2 beth yr oeddem am fynd i'r afael â hwy a theimlaf fod y cynnig hwn yn mynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, mae gennyf bryderon o hyd ynglŷn â'n gallu i ddadansoddi data. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at yr angen i ganolbwyntio ar gyfleoedd i greu cyfoeth ac nid canolbwyntio ar gost yn unig. Rwy'n deall ein bod wedi cael profiad o hyn, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig nad ydym yn colli golwg ar y ceiniogau i sicrhau nad ydym yn cael ein hecsbloetio a dyna le mae'r gallu i ddadansoddi'r data yn bwysig. Yr ydym yn gwneud buddsoddiad sylweddol ac mae angen i ni weld Adenillion ar Fuddsoddi a matrices penodol y gallwn ei ddefnyddio i fesur hyn i ddangos a dangos tystiolaeth o'r elw ar fuddsoddiad i'r trethdalwr. Nid wyf yn gweld hyn yn yr adroddiad.

Cath – Rydym yn cydnabod yr angen i fonitro cynnydd er mwyn dangos y manteision ac rydym wedi cytuno i ddatblygu cynllun blynyddol i'w adolygu gan y pwyllgor hwn ac uwch arweinwyr a byddwn yn sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a bod matrices i'w gefnogi.

Steve – Mae'n hanfodol deall beth rydych chi'n ei wario, gyda phwy rydych chi'n ei wario a sut mae'n cyd-fynd â chyflenwyr ac ardaloedd. Peidiwch â phoeni gormod nad ydych ble rydych chi gyda hyn, gan fy mod wedi bod yn gweithio gyda Chyngor arall ar yr un mater, ond dyna fydd un o'r darnau allweddol cyntaf o waith y byddwn yn ei wneud, gan y bydd hyn yn allweddol i sbarduno newidiadau. Yng Nghaerdydd, rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm arweinyddiaeth bob chwarter am fewnwelediadau a pherfformiad i'w helpu i fod yn ymwybodol o sut olwg sydd ar eu perfformiad ac mae sicrhau bod y llywodraethu a'r darn risg hwnnw'n iawn yn hanfodol ond felly mae sicrhau ein bod yn cyflawni'r lles cymdeithasol ac economaidd. Gall rhai cynghorau

ddisgwyl newid mawr o enillion hawdd ond gwneir y rheini i raddau helaeth. Rydych yn gyrru gwerth drwy ddeall yn y tymor hwy yr hyn rydych chi'n ei wario. Mae CLILC wedi arwain ar ddatblygu fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau sy'n fframwaith ar gyfer mesur gwerth cymdeithasol sy'n caniatáu datgloi gwerth cymdeithasol drwy ei integreiddio i gaffael ac mae'n ddefnyddiol gan ei fod yn rhoi barn weladwy iawn ar werth cymdeithasol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym wedi cyflwyno Themâu, Canlyniadau a Mesurau i'n tendrau a gallwn edrych ar sut rydym yn dechrau cyflwyno hynny yn eich tendrau, ond mae rheoli contractau yn allweddol. Rydym newydd ddechrau yng Nghaerdydd i ddefnyddio dull newydd o reoli contractau sy'n faes sy'n datblygu i ni ac rydym wedi gwneud y gwaith caled o amgylch yr hyn y gallwn ei gyflwyno i chi Gobeithio eich bod wedi cael ymdeimlad o'r pethau ymarferol y gallwn eu gwneud.

Scott – Yr unig beth y byddwn yn ei godi oedd y cysyniad o Ganolfannau Rhagoriaeth a Chaerdydd yn wreiddiol yw'r Ganolfan Ragoriaeth honno. Maent wedi cael cyfle i gaffael ystod enfawr o brosiectau arwyddocaol nad yw Sir Fynwy wedi'u caffael. Mae'r her yn ôl i aelodau etholedig yn ymwneud â'n dealltwriaeth o 'gostio oes gyfan'. Ar gyfer rhai gwasanaethau, gallwn sylweddoli ble y gallwn yrru costau allan, ond i rai, ni allwn, gan fod yn rhaid i chi gydbwysu mewnbynnau cymdeithasol, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cadwyni cyflenwi moesegol a gwariant yn lleol.

Diolch am yr ymatebion, mae eich gonestrwydd wedi creu argraff fawr arnaf. Yr hyn y mae'n ei amlygu yw ein bod yn iawn i flaenoriaethu hyn fel eitem ar gyfer craffu manwl. Yr adnodd a'r data yw'r agweddau pwysig ac rwy'n teimlo fy mod yn cael fy annog yn fawr gan yr hyn rydym wedi'i glywed heddiw.

- Diolch am eich atebion i'n cwestiynau. O ran y manylion penodol ac o gofio eich ateb blaenorol, beth fydddech chi'n ei weld fel mesur llwyddiant y rhaglen hon pe bai'n dwyn ffrwyth? A fyddem yn gweld gostyngiad yn y gost ac os felly a fyddai ffigurau'n cael eu rhoi yn y contract lle y disgwylid lleihau costau?

O ran lleihau costau, mae'n ddiddorol, fel y gwnaethom 'raglen rheoli categorïau' yng Nghaerdydd ac oddi ar gefn y darn hwnnw o waith, gwnaethom sicrhau gostyngiad o £ miliwn yng ngwariant y gronfa gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n gas gennyf y syniad o roi targed arbedion i gaffael gan ei fod yn tueddu i sbarduno'r ymddygiadau anghywir. Er enghraifft, mae gweithio gyda Chyngor arall sydd wedi cael targed arbedion yn tynnu sylw at drafodaeth rhwng pa adran y mae'n arbediad ar ei gyfer. Credaf mai rôl y swyddogaeth gaffael yw cefnogi'r cyfarwyddiaethau sy'n ddeiliaid y gyllideb i gefnogi eu hymdrechion i arbed arian. Gan ein bod yn tueddu i fod â phrisio unedau, mae'n debygol o fod yn weddol debyg ond bydd gwerth gwirioneddol yn dod drwy weithio gyda chyfarwyddiaethau i sbarduno newidiadau yn eu gwariant drwy eu herio i wneud pethau'n wahanol. Dyma sut y bydd lleihau costau yn eich gwasanaethau yn dod drwodd.

Scott – Ar gyfer eitemau fel offer swyddfa, ie, dylem geisio lleihau costau ond pan fyddwn yn sôn am ofal cymdeithasol, mae angen i ni sicrhau cyflenwad ac ar hyn o bryd, mae gennym bobl sy'n gweithio ar isafswm cyflog ac rydym am gael dilyniant mewn staff, felly ni fyddai gyrru costau i lawr yn briodol. Yr hyn y byddem am ei gael yw cynnig pecyn ehangach i'r staff hyn.

- O ran yr adolygiad yr ydych wedi'i wneud hyd yn hyn, a wnaethoch edrych ar gostau cymharol mewn unrhyw gategori o fewn y contractau yn Sir Fynwy ac yng Nghaerdydd o ran meincnodi?

O ran meincnodi cymharol, nid yw bob amser yn ddefnyddiol gan y gall guddio gwahaniaethau mewn materion gweithlu lleol, daearyddiaeth awdurdodau ~ er enghraifft, wrth ddarparu gofal cymdeithasol mewn awdurdod gwledig. Felly, gall meincnodi fod yn broblem pan na allwch gymharu tebyg am debyg.

- Gan dybio ein bod yn bwrw ymlaen â'r cynnig, a yw setiau sgiliau Staff Cyngor Sir Fynwy y rhai cywir i weithio gyda Chaerdydd fel y mae ar hyn o bryd?

Steve – Os ydych yn cyfeirio at Scott a Sue, oes, mae gennyf hyder llwyr. Mae gennym berthynas gref ac rydym wedi gweithio gyda'n gilydd dros flynyddoedd lawer. Yr ydym wedi'n halinio'n gryf yn ein hangerdd dros sut y dylai caffael edrych. Mae Sue yn gryfder o fewn y tîm a bydd yn rhan annatod o'r tîm tra byddwn yn dod i adnabod Sir Fynwy.

Scott – Mae gan Sue a fi dros 12 mlynedd o brofiad ond teimlwn fod angen hyfforddiant penodol i brif chwaraewyr gwariant y Cyngor.

- A yw'r sector preifat yn gweithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar dargedau? Pa mor wahanol yw hyn i'r ffordd y mae awdurdod lleol yn gweithredu?

Y gwahaniaeth mwyaf mewn gwirionedd yw amrywiaeth llwyr yr hyn a brynwn o'i gymharu â'r sector preifat. Efallai y byddant yn prynu un cynnyrch tra byddwn yn prynu ystod enfawr o gynhyrchion a gwasanaethau. Yng Nghaerdydd, rydym wedi cymryd egwyddorion y sector preifat ond wedi ei deilwra i weithio i'r sector cyhoeddus. Mae gennym 3 tîm yng Nghaerdydd: un sy'n gofalu am gaffael ar gyfer gofal cymdeithasol, i bobl ac mae hyn yn cwmpasu tai hefyd, un ar gyfer yr amgylchedd a gwasanaethau gweithredol ac yna tîm corfforaethol sy'n delio â phopeth arall. O fewn y timau hynny, mae unigolion sy'n arwain ar feysydd penodol ac maent yn arbenigo yn y meysydd y maent yn eu harwain. Rydym wedi dod â'r wybodaeth o'r sector preifat ond mae angen i'n dull gweithredu fod yn wahanol. Rydym yn meddwl yn ofalus am ba gynhyrchion sydd eu hangen arnom ac yna'n edrych ar yr hyn y gall y farchnad ei gynni. O ran recriwtio, mae'n anodd iawn recriwtio swyddogion caffael da ac yn fy mhrofiad i, mae gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr gefndir a phrofiad o weithio ym maes caffael llywodraeth leol oherwydd bod y ffordd y mae'r sector preifat yn gweithio mor wahanol. Bydd y trefniant hwn y gobeithiwn ymrwymo iddo yn ein helpu i gryfhau'r arbenigedd proffesiynol hwnnw.

- Murphy – Rwy'n dawl fy meddwl gyda'r hyn rwyf wedi'i glywed ac rwy'n edrych ymlaen at y dull gweithredu ac yn gweithio ar y cyd.

- Siaradodd Scott am hyfforddi pobl mewn gwahanol gyfarwyddiaethau ac yr wyf yn cydnabod hynny'n llwyr. Soniodd Scott hefyd am gaffael moesegol ac o brofiad personol, yr wyf wedi gweld sut nad yw hynny bob amser wedi'i gymhwyso, gyda chanlyniadau enbyd i gwmnïau sydd wedi cael eu gorfodi i weinyddu oherwydd y ffocws

ar bris ac nid ansawdd yn unig, felly mae'r ddadl hon wedi tynnu sylw at y ffaith bod llawer mwy i gaffael na phris.

- Yn ein cyfarfod o flaen llaw, buom yn sôn am ein pryderon cychwynnol ond teimlwn fod ein cwestiynau wedi'u hateb a'n bod yn teimlo'n dawel ein meddwl.
- Cyfeiriasoch at wahanol bwyntiau adolygu. Rydym yn ymwybodol ein bod yn swyddogaeth graffu ac nid ydym am weithredu ein hunain ond a allem gael mewnbwn o bosibl wrth lunio'r broses lywodraethu. Y ffactor cysylltiedig yw rheoli a deall contractau lle mae cymalau terfynu pe bai'r cynghorau am wneud rhywbeth gwahanol. O gofio y bydd y contract hwn yn rhychwantu dros 2 dymor gweinyddol, a allwch egluro'r hyn sydd gennych ar waith i fynd i'r afael â hynny ac a allwch amlinellu'r hyn a fyddai, yn eich barn chi, yn drefniadau monitro defnyddiol ar gyfer y pwyllgor hwn yn y dyfodol?

Cath – Ar hyn o bryd rydym yn llunio'r rhaglen ddirprwyo a'r pwynt adolygu 12 mis fydd y cymal terfynu yn y contract. O ran y cynllun monitro yn y dyfodol, bydd Scott yn datblygu hynny a byddwn yn dod â hynny atoch chi a byddwn yn awgrymu y byddai 6 phwynt misol o gymorth i ni. Mae gan Scott rai mynegeion allweddol y gallwn edrych arnynt wedi'u hadeiladu o amgylch y blaenoriaethau ac ar ôl gwranddo ar eich pryderon, mae'n teimlo fel ein bod ar yr un dudalen.

Steve – Hoffwn sicrhau'r aelodau fy mod yn angerddol iawn am yr hyn rwy'n ei wneud i unrhyw un rwy'n gweithio gyda hwy ac rwy'n mynd ati gyda'r un graddau o angerdd â'r gwaith ar gyfer fy awdurdod fy hun, felly os byddwn yn ymrwymo i'r trefniadau hyn, mae ymrwymiad llwyr i roi'r gorau y gallwn i chi.

- Yr Aelod Cabinet y Cynghorydd Greenland ~ Mae un cwestiwn sy'n aros yn fy meddwl yn ymwneud â'r effaith ar fusnesau lleol ac mae Scott wedi nodi y dylid agor mwy o gyfleoedd i fusnesau lleol drwy'r trefniant hwn ar y cyd nag o'r blaen. Yr hyn yr hoffwn ei wybod yw a fyddwn yn gwybod yn yr adolygiad a yw busnesau Sir Fynwy wedi cael mwy o fusnes o ganlyniad i'r cydweithio neu lai? A fyddwn yn gallu dangos tystiolaeth o effaith net ar fusnesau Sir Fynwy? Rwy'n hapus iawn bod y pwyllgor craffu'n ymwneud â hyn ac rwy'n falch y byddant yn craffu ar hyn yn barhaus.

Steve, un o'r pethau yr ydym yn adrodd arno bob chwarter yng Nghaerdydd yw gwariant lleol yng Nghaerdydd, y rhanbarth a Chymru gyfan. Rydym eisoes wedi adolygu'r data llinell sylfaen cychwynnol ar gyfer Sir Fynwy a hefyd yn edrych ar ôl troed ychydig yn ehangach drwy edrych ar fusnesau ychydig dros y ffin. Fodd bynnag, byddwn yn datblygu cyfres o fesurau perfformiad allweddol a fydd yn cwmpasu popeth o wariant contract untro i werth cyfiawnder cymdeithasol a gwariant microfusnesau. Felly mae cael y data'n bwysig, ond dyma'r mewnwelediadau a gasglwn o'r man cychwyn sylfaenol ac olrhain hynny drwodd i gynnydd, mae sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn bwysig.

Scott – Un o'r materion cyfyng-gyngor diddorol i ni yw mai un o'r pethau allweddol yn y matrices yw gwariant yng Nghymru, ond yn y lleoliad lle'r ydym yn ddaearyddol, Swydd Avon a'r ffin sy'n cyfrif hefyd wrth i bobl fyw yno a gweithio yma i'r gwrthwyneb ac rwy'n cael y trafodaethau hynny'n gyson gyda Llywodraeth Cymru.

Crynhoi'r Cadeirydd:

Mae hwn wedi bod yn faes blaenoriaeth i ni. Roeddem yn gwybod bod manteision sylweddol i'w hennill, nid yn unig o ran cyflawni'r cynllun corfforaethol ond hefyd nodau Llywodraeth Cymru a llunio diwylliant yn fewnol ac rwyf wedi hoffi meddwl ein bod yn flaengar ac yn arloesol. Bydd y profiad y gall Caerdydd ei gynnig i ni o ran gweld sut mae adrannau'n gwario yn ein galluogi i drawsnewid ein diwylliant. Bydd y model hwn yn dod â mwy o rannu gwybodaeth. Gyda'r adnoddau presennol, teimlwn nad yw cynnal y status quo yn opsiwn. Mae'r Cynghorydd Davies wedi gwneud pwynt perthnasol iawn ynglŷn â chael y data cywir i ddadansoddi ein gweithgareddau arno. Rydym wedi cyffwrdd ag Enillion ar Fuddsoddiad, nid yn unig i'r cyngor ond hefyd am gyfiawnhau trethdalwr Sir Fynwy a sut olwg fydd ar lwyddiant. O ran trefniadau craffu a llywodraethu, byddwn yn cynnwys 6 mis yn ein Blaenraglen Waith. Os oes gan aelodau syniadau ychwanegol am lunio'r darn monitro, rhowch wybod i ni. Felly, o ran argymhellion yr adroddiad, mae'r Cabinet wedi nodi'r cyllid ar gyfer hyn a chafwyd cefnogaeth eang gan y pwyllgor y bore yma, felly cytunwn ar y rheini a chytunwn i gael diweddariadau 6 mis.

5. Blaengynllun Gwaith Pwyllgor Dethol yr Economi a Datblygu

Bu'n rhaid i ni ohirio ein gweithdy CDLI yr wythnos hon gan nad yw'r bwrdd iechyd yn gallu bod yn bresennol. Mae'r un nesaf ar 9fed Mawrth.

Ein cyfarfod nesaf yw CDLI. Hoffem hefyd edrych ar y strategaeth Busnes a Menter a hoffem gyflwyno 'Cynllun ar Dudalen' y Cyngor i nodi pynciau ar gyfer y blaengyfeiriad i'n helpu i lunio ein rhaglen waith.

Hoffem gyflwyno diweddariad ar Gyflogaeth a Sgiliau a'r gwaith gyda busnes, prentisiaethau a'r rhaglen Kickstart. Hefyd, mae angen i ni gyflwyno diweddariad ar MonLife.

6. Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet

7. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

8. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf